Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.07.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Symud i Lefel Rhybudd 1 i'w gwblhau ar 17 Gorffennaf 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y symud i gyfyngiadau Lefel Rhybudd 1 i'w gwblhau ar 17 Gorffennaf 2021. I ddarllen y datganiad ewch i:

https://llyw.cymru/y-camau-nesaf-tuag-lai-o-reolau-covid-prif-weinidog-cymru

O 17 Gorffennaf 2021:

- Gall hyd at chwech o bobl gwrdd y tu fewn mewn cartrefi preifat a llety gwyliau

- Gellir cynnal digwyddiadau dan do wedi’u trefnu ar gyfer hyd at 1,000 yn eistedd neu 200 yn sefyll, yn dilyn asesiad risg
- Gall canolfannau sglefrio iâ ailagor
- Terfynau ar nifer y bobl sy’n gallu ymgynnull yn yr awyr agored wedi’u dileu
- Mwy o hyblygrwydd o ran pellhau corfforol ar gyfer adeiladau a digwyddiadau awyr agored
- Caniatáu i hyd at 30 o blant o sefydliadau fynd i ganolfannau preswyl dros wyliau’r haf
- Ei gwneud yn ofynnol i’r risgiau a’r mesurau lliniaru a nodwyd yn asesiad risg COVID gael eu rhannu â gweithwyr
- Tynnu’r cyfyngiadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i fwyta bwyd a diod wrth eistedd ar gyfer digwyddiadau yn unig

Mae’r datganiad hefyd yn amlinellu Lefel Rhybudd 0 newydd y bydd Cymru yn symud iddo ar 7 Awst 2021 os yw’r sefyllfa iechyd cyhoeddus yn caniatáu. Gellir gweld Cynllun Rheoli Coronafeirws wedi’i ddiweddaru, sy’n disgrifio’r mesurau i reoli coronafeirws ar Lefel Rhybudd 0 yn:

https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefel-rhybudd-0-sero

Ar Lefel Rhybudd 0:

- Bydd cyfyngiadau cyfreithiol a chapiau ar nifer y bobl sy’n gallu cwrdd gan gynnwys mewn cartrefi preifat, lleoedd cyhoeddus neu mewn digwyddiadau yn cael eu dileu
- Bydd asesiadau risg COVID yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol
  Yn gyfreithiol, bydd angen mesurau rhesymol i reoli’r risg o coronafeirws ond mater i bob sefydliad fydd yn penderfynu ar sail canlyniad eu hasesiad risg, gan gynnwys mewn perthynas â phellter corfforol
- Gall pob busnes ac adeilad agor, gan gynnwys clybiau nos
- Dylai pobl barhau i weithio gartref lle bynnag y bo modd
- Bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol ym mhob man cyhoeddus y tu mewn, ac eithrio lleoliadau addysg a lletygarwch

# COVID-19: Adnoddau defnyddiol

Mae Lefel Rhybudd 1 a Lefel Rhybudd 0 yn cynyddu'r pwyslais ar fusnesau unigol i gwblhau a chynnal asesiad risg. Mae cyngor a gwybodaeth ar gael gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) yn:

https://www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/risk-assessment.htm

Mae'n parhau i fod yn ofynnol i bob adeilad lletygarwch – trwyddedig a heb drwydded – gadw cofnodion o gwsmeriaid, staff ac ymwelwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/32OatFI

I gael y cyngor, y canllawiau a'r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a'ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html
https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle
https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

# COVID-19: Canolfan brofi COVID-19 Blaenau Ffestiniog

Bydd canolfan brofi COVID-19 cerdded i mewn/gyrru drwodd ar gyfer pobl â symptomau Coronafeirws yn agor ym Mlaenau Ffestiniog ddydd Gwener 16 Gorffennaf 2021 hyd at 30 Gorffennaf 2021. Mae'r ganolfan brofi, ym Maes Parcio'r Ganolfan Ddydd, Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog, LL41 3DW, yn agor rhwng 9.30am a 3.30pm, saith diwrnod yr wythnos. Dylai pobl â symptomau drefnu apwyntiad trwy ffonio 119 neu drwy fynd i:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/trefnwch-brawf-covid-19/

# COVID-19: Mannau casglu Profion Llif Unffordd (LFTs)

Mae'r rhwydwaith o leoliadau lle gall eich staff sy'n wynebu cwsmeriaid godi citiau LFT wedi tyfu. Mae gwybodaeth am ble mae citiau ar gael bellach ar wefan Cyngor Gwynedd, ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Coronafeirws/Prawf-Covid-19.aspx

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru